## Atodiad 2 – eitem Gyfundrefn Addysg Drochi

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 13/02/25

**Addasiad o gwestiynau cyfweliad ar gyfer Athrawon Ysgolion Prif-Ffrwd (O'Duibhir, 2018) - Immersion Education**

### Deunyddiau Dysgu

1. Pa ddeunyddiau addysgu a dysgu sydd ar gael i chi gefnogi addysgu'r cwricwlwm i'r disgyblion trochi trwy gyfrwng y Gymraeg? Pa mor ddigonol ydyn nhw yn eich barn chi?
2. Disgrifiwch sut ydych chi'n cael gwybod am y gwaith sy'n cael ei gwblhau yn y Ganolfan Drochi ac unrhyw adnoddau sydd ar gael i chi wrth gefnogi'r disgyblion gyda'r Gymraeg yn y prif-lif?

### Hyfedredd ac Agweddau tuag at ddysgu'r iaith

Hoffwn ofyn rhai cwestiynau ichi yn awr mewn perthynas â hyfedredd y plant yn y Gymraeg.

3. Pa mor foddhaol, yn eich barn chi, yw hyfedredd y plant yn y Gymraeg ar ddiwedd y rhaglen drochi 10 Wythnos?

4. Sut mae eu hyfedredd yn yr iaith yn cymharu â siaradwyr brodorol o oedran tebyg? Mae lle i ofyn cwestiynau dilynol os oes angen, e.e. A yw'n destun pryder?)

5. Pa strategaethau, os o gwbl, ydych chi'n eu defnyddio i annog y plant i siarad Cymraeg?

6. Pa arweiniad ydych chi yn ei roi i ddisgyblion eraill i gefnogi'r siaradwyr newydd yn yr ysgol prif-ffrwd?

7. Allwch chi ddisgrifio hyd eithaf eich gallu'r cyswllt/amlygiad mae'r plant sy'n mynychu'r ganolfan drochi yn ei gael gyda'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol?

8. Sut byddech chi'n disgrifio agweddau'r plant yma tuag at ddysgu Cymraeg?

**Cysondeb Cwricwlwm a Chyfathrebu**

9. Allwch ddisgrifio y math o drafodaethau a geir yn eich cyfarfodydd tîm staff o fewn eich ysgol mewn perthynas â chefnogi'r disgyblion yn y Gymraeg er mwyn dychwelyd i'r ysgol prif-ffrwd ar ddydd Gwener?

10. Sut ydych chi'n cyfathrebu ac yn cydweithio gyda'r ganolfan drochi i gefnogi disgyblion gyda'u gwaith yn yr ysgol prif-ffrwd ar ddydd Gwener i sicrhau eu bod yn gallu dychwelyd, cyfrannu a dilyn y cwricwlwm a'u gwaith dosbarth yn y prif ffrwd?

11. Sut ydych chi'n gwybod am y gwaith iaith a lefel y gwaith sy'n cael ei gwblhau yn y Ganolfan Drochi er mwyn cyfeirio ato ar ddydd Gwener?

12. Yn eich barn chi, beth yw'r heriau rydych yn eu wynebu wrth geisio cefnogi'r disgyblion wrth ddychwelyd o'r ganolfan ar ddydd Gwener i ddysgu yn eich ysgol/dosbarth?

**Dysgu Proffesiynol**

13. Allwch chi nodi unrhyw gyfleon dysgu proffesiynol sydd ar gael i chi a staff yr ysgol o ran cefnogi lles a datblygiad y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth drochi wrth ddychwelyd i'r ysgol prif-ffrwd?

14. Allwch chi nodi unrhyw gyfleon dysgu proffesiynol sydd ar gael i chi a staff yr ysgol o ran datblygu eich dulliau addysgu i gefnogi'r disgyblion trochi gyda'r iaith?

**Y Model Trochi**

15. Disgrifiwch gryfderau y model ar gyfer y ddarpariaeth drochi 10 wythnos?

16. Ac allwch chi ddisgrifio unrhyw wendidau i'r model 10 wythnos o'ch profiad chi?

17. Beth yw eich barn o amgylch y model o safbwynt cefnogi lles disgyblion sy'n rhan o'r ddarpariaeth drochi (10 wythnos a dydd Gwener) ?

Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu a fyddai'n berthnasol i'n hymchwil?

Diolch yn fawr!